

**Adroddiad
Blynyddol
Y Llywodraethwyr
i Rieni
2013 / 2014**





Annwyl Riant / Warcheidwad

Pleser o'r mwyaf yw medru cyflwyno adroddiad sy'n adlewyrchu blwyddyn lwyddiannus arall yn hanes Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin - a hynny ym mhob agwedd o fywyd cymhleth ysgol uwchradd. Mae'n bwysig ystyried cyfraniad rhieni a llywodraethwyr i lewyrch yr ysgol, ond mewn gwirionedd mae'r fath lwyddiant a geir ym Mro Myrddin yn dibynnu'n llwyr ar y staff sy'n gweithio'n hynod o galed o ddydd i ddydd. Gwaith caled ac ymroddedig y Pennaeth, yr Uwch Dîm Arwain, penaethiaid adran, yr athrawon pwnc a'r holl staff cynorthwyol sy'n gyfrifol am unrhyw lwyddiant yn y pen draw.

Rydym i gyd fel corff llywodraethu yn ei chyfri hi'n fraint i gydweithio gyda'r pennaeth a'r holl staff yn yr ysgol. Nid oes unrhyw amheuaeth bod gennym staff hynod broffesiynol sy'n gwneud eu gorau glas bob amser i geisio cyrraedd y safonau uchaf posib wrth addysgu pob disgybl yn yr ysgol.

Roedd hon yn flwyddyn o newid ym Mro Myrddin. Yn dilyn ei ymddeoliad cyn y Nadolig, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r cyn bennaeth, Mr Dorian Williams, am ei gyfraniad arbennig at weithgarwch yr ysgol. Yn dilyn saith mlynedd o wasanaeth ffyddlon a diflino rwy'n gobeithio ei fod bellach yn cael hoe haeddiannol a hapus. Penodwyd Dr Llinos Jones yn olynydd iddo ac mae eisoes wedi ennill ei phlwyf yn arweinydd ysbrydoledig a theg. Llongyfarchiadau iddi hi a'r tîm ar flwyddyn gyntaf hynod gynhyrchiol. Hoffwn estyn ein diolch hefyd i'r staff hynny sydd wedi ein gadael, neu ymddeol yn ystod y flwyddyn ac estynnwn groeso cynnes iawn i aelodau staff newydd sydd wedi ymuno â ni yn ystod y flwyddyn.

Mae'n braf nodi bod yr ysgol yn parhau i gynnig addysg gyflawn a chyfoethog i bob disgybl. Llongyfarchwn bawb ar eu lwyddiant mewn arholiadau allanol a braf yw adrodd ein bod fel ysgol wedi gweld cynnydd pellach unwaith eto. Mae'n bwysig nodi hefyd bod gwaith ardderchog wedi cael ei wneud i sicrhau bod ein lefel presenoldeb wedi mynd heibio i'r targed a osodwyd gan yr Awdurdod Lleol.

Fel arfer mae ystod eang o weithgareddau, clybiau, teithiau addysgiadol, ymweliadau ac achlysuron arbennig wedi eu gweu i mewn i fywyd yr ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Cafwyd blwyddyn dda ar y meysydd chwarae gyda lwyddiant arbennig i nifer o dimau'r ysgol yn ogystal â llu o lwyddiannau mewn campau unigol. Bu llawer o weithgarwch diwylliannol yn cynnwys eisteddfodau, perfformiadau a sioeau. Derbyniodd yr ysgol nifer o wobrau ar lwyfan yr Urdd eleni a llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu ac yn brysur yn hyfforddi.

Hoffwn estyn ein diolch cynhesaf i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cefnogaeth allweddol yn ystod y flwyddyn. Mawr yw ein dyled i'r Gymdeithas hon hefyd am ei chymorth cyllidol i hyrwyddo lles addysg ein disgyblion.

Yn bersonol hoffwn ddiolch i'r Pennaeth, y staff a'm cyd-lywodraethwyr am bob cefnogaeth a chydweithrediad a gefais yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd. Rwy'n ddyledus hefyd i Mrs Eira Jones, Clerc y Llywodraethwyr, am ei chynghor ac am fod yn gefn mawr i mi bob amser.

Hoffwn ddymuno'n dda i'm holynydd, Mrs Lynwen Roberts. Fel rhywun sydd wedi cael y cyfle i gydweithio gyda Lynwen trwy fy ngwaith bob dydd rwy'n gwybod fod ganddi gyfraniad sylweddol i'w wneud yn y swydd hon a phob dymuniad da iddi wrth iddi fynd i'r afael â'r rôl!

Rydym yn byw mewn cyfnod o newid mawr ym myd addysg a phob maes arall o ran hynny. Serch hynny, mae'n bwysig i ni gofio fod rhai pethau'n aros yn ddigyfnewid. Maent yn cynnwys darparu addysg o'r radd flaenaf i'n pobl ifainc a fydd yn eu paratoi ar gyfer byw bywyd llawn a rhugl rwydd yn y ddwy iaith yn yr unfed ganrif ar hugain. Maent hefyd yn cynnwys hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg nid yn unig fel cyfrwng addysgu a dysgu ond hefyd ym mywyd ein disgyblion y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r rhain yn heriau aruchel sy'n haeddu'r gorau gan bob un ohonom. Braf oedd gweld yr ysgol yn arloesi yn hyn o beth wrth roi cyfle i rai o fyfyrwyr blwyddyn 12 gynnal gweithgareddau llawn bwrlwm i annog y defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg y llynedd, trwy gynlluniau megis Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Llywodraeth Cymru. Mawr obeithiwn y bydd cynlluniau lwyddiannus o'r fath yn parhau yn yr ysgol.

Mae croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth neu Gadeirydd y Corff Llywodraethol os hoffech chi drafod rhywbeth yn benodol neu i gael rhagor o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r adroddiad hwn. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad a gyda'n gilydd gallwn edrych ymlaen at flwyddyn arbennig arall.

Arwel Lloyd
Cadeirydd y Corff Llywodraethu



Adroddiad Dr Llinos Jones Y Pennaeth

Mae'r flwyddyn academaidd hon wedi bod yn arbennig o lwyddiannus. Mae'n falch gennym gofnodi canlyniadau arholiadau cryf iawn unwaith eto eleni a hoffwn ddiolch i ddisgyblion, rhieni a staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad. Mae'r athrawon a'r myfyrwyr wedi parhau i weithio'n galed er mwyn cynnal y safonau uchel a bennwyd yn Ysgol Bro Myrddin dros y ddegawd ddiwethaf. Mae llwyddiannau di-ri yr ysgol wedi eu cofnodi ar wefan yr ysgol ac yn ein papurau lleol a thrwy Twitter.

Mae wedi bod yn flwyddyn o newidiadau hefyd gydag ymddeoliad ein cyn-bennaeth Mr Dorian Williams ar ddiwedd tymor yr Hydref ac ail strwythuro y Tîm Rheoli Uwch i fod yn Uwch Dîm Arwain.

Edrychwn ymlaen at ddyfodol yn llawn cyffro o dan arweiniad ein Uwch Dîm Arwain newydd. Ein nod yw cynnal a chodi safonau uchel yr ysgol gan gynnig dewis o gwricwlwm eang a phrofiadau allgyrsiol helaeth. Mae'r Llywodraethwyr hefyd yn awyddus iawn i sicrhau eu bod yn dwyn staff ac arweinwyr yr ysgol i gyfrif ac yn gwneud hynny drwy'r Pwyllgorau amrywiol sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod polisi a gweithgareddau'r ysgol.

Buddsoddwyd yn sylweddol mewn hyrwyddo dysgu digidol drwy sefydlu WiFi ar draws yr ysgol. Rydym wedi prynu 50 o iPads eisoes ac mae'r staff wedi dechrau datblygu'r arbenigedd addysgu a dysgu er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg hon yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n fwriad gennym hefyd i wella mynediad i adnoddau a deunyddiau cymorth addysgu a dysgu y tu allan i oriau ysgol i ddisgyblion a rhieni.

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i fod yn agored ac yn onest am bob agwedd ar wella'r ysgol ac yn ein barn ni, mae barn disgyblion a rhieni yn rhan annatod o hynny. Rydym yn datblygu Llais y Disgybl ymhob agwedd o fywyd ysgol ac yn gweithredu ar y canlyniadau. Mae gennym gynlluniau i gryfhau llais y Cyngor Ysgol ac i ddatblygu Cyngor Chwaraeon. Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn ymwybodol o farn pawb sy'n gysylltiedig gyda'r ysgol. Gofynnwn i chi, felly, i ddefnyddio'r holiadur a ddsberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad.

Mae cyfathrebu'n allweddol i ni ac yn ddiweddar rydym wedi gwella ein gwefan ysgol ac wedi datblygu cyfrif Twitter. Ewch ar y rhain i gael y newyddion diweddaraf am yr ysgol. Rydym hefyd wedi datblygu system decstio i hwyluso'r berthynas rhwng yr ysgol a'r cartref. Cyfeiriad gwefan yr ysgol yw:

www.bromyrdin.sirgar.sch.uk



Cynnydd ar argymhellion Estyn yn Adroddiad Arolygu 2009

A1. Parhau i fireinio gweithdrefnau'r ysgol i dracio perfformiad disgyblion yn erbyn targedau i sicrhau eu bod yn ddigon trylwyr i alluogi dynodiad cliriach o dangyflawniad.

Bellach mae gennym system fonitro a thracio lwyddiannus a manwl sy'n rhoi cofnod i ni o darged a her a chynnydd bob disgybl o flwyddyn 7 i 13. Mae targedau a her yn cael eu gosod yn seiliedig ar berfformiad blaenorol a data rhagfynegol amrywiol e.e. FFT. Mae'r targedau hyn yn cael eu rhannu gyda'r disgyblion ac mae athrawon yn asesu gwaith y disgyblion yn erbyn y disgwyliadau yma. Trwy system asesu goleuadau traffig rydym hefyd yn adnabod y tangyflawnwyr a'r disgyblion mwy abl a dawnus gan sicrhau ein bod yn eu herio i gyrraedd y safonau uchaf posibl. Mewn achos o dangyflawni gyferbyn potensial mae'r ysgol yn mynd i'r afael a'r rhesymau dros y tangyflawni hynny er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd ei lawn botensial.

A2. Parhau i weithio'n agos gyda'r Awdurdod Addysg Leol i ddarparu cyfleusterau addas ar gyfer yr adrannau Addysg Gorfforol, Cerdd a Drama ac i ddarparu cyfleusterau digonol ar gyfer ciniawa a'r chweched dosbarth.

Ym mis Medi 2010 agorwyd yn swyddogol dau gaban yr Adran Ddrama ar safle'r ysgol. Ym mis Medi 2011 gwelwyd agoriad Panedini, sef caffi y chweched dosbarth. Bellach mae'r caffi ar agor o 9.30 hyd 3.00 ac yn cynnig lle i'r disgyblion a'r staff i gael byrbryd, cinio, coffi a chlonc. Mae hefyd yn medru bod yn ystafell waith i'r disgyblion. Ym mis Medi 2012 gwelwyd datblygiad newydd hefyd gyda agoriad swyddogol y ddau gaban Cerdd. Buddsoddwyd yn sylweddol yn yr ystafell ffitrwydd hefyd ar gyfer yr Adran Addysg Gorfforol yn 2013. Gwelwyd gwireddu pob un o'r argymhellion felly.

A3. Gweithredu system fwy trylwyr ar gyfer codi lefelau presenoldeb

Mae cyfradd presenoldeb yr ysgol wedi bod yn gyson uchel ac wedi gwella ymhellach yn 2014 wrth i ni benodi Pennaeth Cynorthwyol newydd i fod yn gyfriol am bresenoldeb ers mis Mai 2014. Mae'r cyfathrebu onest gyda'r rhieni hefyd wedi sicrhau cynnydd. Mae hon yn agwedd y mae'r ysgol wedi gweithio'n galed i'w gwella ac mae'r data yn dangos y llwyddiant. Bu cynnydd ym mhresenoldeb disgyblion ers yr arolwg diwethaf. Bellach mae graddfa presenoldeb yr ysgol yn 95.3%, o'i gymharu gyda chyfradd presenoldeb sirol o 91% a Chymru 91.4%. Mae cyfradd absenoldebau heb ganiatâd yn hynod isel ar 0.1%, llawer yn well na chyfradd sirol (0.8%) a Chenedlaethol (1.5%).



Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Aelodau y Corff Llywodraethol 2014-15

Cadeirydd : Mr Arwel Lloyd

Is-Gadeirydd : Mrs Lynwen Roberts

Clerc : Mrs Eira Jones, Clerc y Llywodraethwyr,
Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin,
swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk

Mae 20 o aelodau ar y Corff Llywodraethol :

- **Pennaeth**
- **6 Rhiant Llywodraethwr**
- **5 Cynrychiolydd yr AALI**
- **2 Gynrychiolydd Athrawon**
- **1 Cynrychiolydd Staff Cynorthwyol**
- **5 Cynrychiolydd Cyfetholedig sy'n aelodau cymunedol**

Rhieni Llywodraethwyr

(cyfnod yn dod i ben)

| | |
|-----------------------------------|------------|
| Mrs Lynwen Roberts (Is-gadeirydd) | (09.11.16) |
| Mrs Marlene Jones | (09.11.16) |
| Mr Hywel Davies | (08.11.16) |
| Parch Beti Wyn James | (28.10.18) |
| Mr Dyfrig Davies | (03.10.15) |
| Mrs Eleri Beynon | (02.12.16) |

Llywodraethwyr yr AALI

(cyfnod yn dod i ben)

| | |
|-----------------------------|------------|
| Cyng Peter Hughes-Griffiths | (23.09.16) |
| Cyng Mair Stephens | (23.09.16) |
| Mr Arwel Lloyd (cadeirydd) | (25.03.17) |
| Mr Alun Charles | (08.12.17) |
| Cyng Gareth O. Jones | (04.09.15) |

Cynrychiolwyr Athrawon

(cyfnod yn dod i ben)

| | |
|------------------|------------|
| Mr Aled Williams | (31.08.17) |
| Dr Huw Griffiths | (23.09.16) |

Cynrychiolwr Staff Cynorthwyol

(cyfnod yn dod i ben)

| | |
|---------------------|------------|
| Mrs Meinir McLellan | (22.05.15) |
|---------------------|------------|

Llywodraethwyr cymunedol

(cyfnod yn dod i ben)

| | |
|--------------------|------------|
| Parch Tom T. Defis | (13.01.17) |
| Mrs Glenys Thomas | (13.01.17) |
| Mr Elfed Davies | (13.01.17) |
| Mrs Anne Loughran | (13.01.17) |
| Mrs Luned Thomas | (13.03.17) |



Cyfarfod Rhieni Blynyddol

Ers Mai 2013 mae trefniadau newydd mewn grym o ran cyfarfod blynyddol llawn y llywodraethwyr / rhieni. Yn hytrach na bod yn rhaid i gorff llywodraethau gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni, mae gan rhieni'r hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu ar faterion sy'n destun pryder. Gall rhieni arfer yr hawl hon hyd at dair gwaith yn ystod blwyddyn ysgol, cyn belled mai pwrpas y cyfarfodydd yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, nid cynnydd a chyflawniad disgyblion unigol na chwynion ynghylch aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu. Caiff cyfarfod ei drefnu gyda'r Llywodraethwyr, felly, os bydd 10% neu 30 o'r rhieni yn gofyn yn ysgrifenedig am gael cyfarfod gan ddefnyddio adran 94 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Holiadur i Rieni

A fydddech mor garedig â defnyddio'r holiadur newydd a ddsberthir yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn i ni gael gwybod eich barn ar ein perfformiad ac, os yw'n briodol, er mwyn awgrymu syniadau y gallwn eu mabwysiadu er budd yr ysgol.

Cysylltiadau â'r gymuned

Defnyddir yr ysgol yn rheolaidd gan glybiau a chymdeithasau allanol. Rydym wedi cydweithio'n agos gyda'r Urdd a'n swyddog 5x60 er mwyn darparu rhaglenni darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol. Mae gennym hefyd gysylltiadau agos gyda'n Heddwes Cyswllt Ysgol, PC Cath Williams. Mae hi wedi ein cefnogi yn dda iawn yn ein rhaglen ABCh ac wedi cydweithio'n agos iawn gyda'n Penaethiaid Blwyddyn a'r Uwch Dîm Arwain. Mae ei chyngor parod a'i gwaith wedi bod yn werthfawr iawn i ni. Mae ein pwyllgor dyngarol yn gweithio'n galed yn flynyddol i godi symiau sylweddol o arian i achosion dyngarol lleol a chenedlaethol. Yn flynyddol hefyd mae blwyddyn 12 yn gwneud gwaith gwirfoddol yn y gymuned i gynorthwyo cymdeithasau niferus megis Radio Glangwili, Siop ymchwil Arthrities, Siop y Groes Goch, Siop Tenovus, Siop Plant Dewi, Ysbyty Glangwili, Ysgol Felinwen, Siop Barnardos, Siop Oxfam a Siop Ambiwlans Awyr Cymru.



Datganiad Ariannol yr ysgol 2013/14

| Gwariant | | Cyllideb | Gwirioneddol |
|------------------|----------------------------|----------------|----------------|
| | Cyflogau | 3437248 | 3400778 |
| | Adeiladau | 398511 | 390786 |
| | Cyflenwadau a Gwasanaethau | 399756 | 415353 |
| | | 4235515 | 4206917 |
| Incwm | | Cyllideb | Gwirioneddol |
| | Derbynebaw Cwsmeriaid | 176935 | 68292 |
| | Grantiau'r Llywodraeth | 4054181 | 4262718 |
| | Grantiau eraill | 7674 | 15912 |
| | | 4238790 | 4346922 |
| Gwarged / Diffyg | | 3275 | 140004 |

Perfformiad Disgyblion

| CA3 Perfformiad Lefel 5+ | | | | | | | |
|--------------------------|-------|-------|-------|-------|------------|----------|------------|
| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | Teulu 2014 | ALL 2014 | Cymru 2014 |
| Cymraeg | 91.0% | 85.3% | 88.5% | 91.0% | 92.4% | 88.7% | 90.1% |
| Saesneg | 90.3% | 86.9% | 88.5% | 93.0% | 92.8% | 88.5% | 85.9% |
| Mathemateg | 92.9% | 93.0% | 90.8% | 94% | 93.1% | 88.4% | 86.5% |
| Gwyddoniaeth | 94.2% | 89.9% | 91.6% | 96.0% | 96.4% | 91.1% | 91.0% |
| DPC | 88.4% | 86.8% | 88.1% | 91.8% | 90.2% | 84.5% | 81.0% |

| CA4 - (copi drafft) | | | | | | | |
|---------------------|-------|-------|-------|-------|------------|----------|------------|
| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | Teulu 2014 | ALL 2014 | Cymru 2014 |
| L2 Cymraeg | 88.1% | 82.7% | 78.8% | 75% | 75.7% | 69.1% | 73.7% |
| L2 Saesneg | 81.2% | 85.8% | 79.3% | 79.5% | 73% | 69.2% | 66% |
| L2 Mathemateg | 80.5% | 80.0% | 76% | 79% | 71.9% | 63.9% | 61.4% |
| L2 Gwyddoniaeth | 80.5% | 83.3% | 76.7% | 77.2% | 78.4% | 78.8% | 81.5% |
| L1 | 97.0% | 98.0% | 96.9% | 100% | 98.5% | 95.6% | 94% |
| L2 | 84.5% | 86.0% | 83.6% | 90% | 86.3% | 84.5% | 82% |
| L2+ | 79.0% | 75.0% | 71.7% | 72.4% | 65.5% | 58.5% | 55.1% |
| DPC | 75.0% | 73.0% | 69.0% | 70.1% | 62.1% | 55.7% | 51.9% |
| Pwyntiau (capi) | 350.3 | 372.2 | 361.8 | 373.9 | 363.1 | 351.8 | 340 |



Crynodeb o Berfformiad Ysgol Bro Myrddin o gymharu a'r awdurdod a Chymru - (copi drafft)

| Crynodeb o Gyraeddiadau Ysgol Uwchradd | | | | | Rhif ALI / Ysgol | 669/4056 | |
|---|--------------------------------------|--------------------------|--------------------------|-------------------------------------|--------------------------|--|-------------------------------|
| Canran y disgyblion 15 oed: | | | | | | | |
| | Gofrestrodd am o leiaf un cymhwyster | Enillodd drothwy Lefel 1 | Enillodd drothwy Lefel 2 | Enillodd drothwy Lefel 2 gan gynwys | Dangosydd pynciau craidd | Sgor pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio | Sgor pwyntiau cyfartalog enag |
| Nifer y disgyblion 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2013: 159 | | | | | | | |
| Ysgol 2013/14 | 100% | 100% | 89% | 72.4% | 70% | 374 | 643 |
| Ardal ALI 2013/14 | 100% | 96% | 85% | 59% | 56% | 352 | 577 |
| Cymru 2013/14 | 99% | 94% | 82% | 55% | 52% | 340 | 520 |

| Nifer y bechgyn 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2013: 81 | | | | | | | |
|--|------|------|-----|-----|-----|-----|-----|
| Ysgol 2013/14 | 100% | 100% | 79% | 58% | 58% | 354 | 579 |
| Ardal ALI 2013/14 | 100% | 94% | 81% | 56% | 53% | 341 | 554 |
| Cymru 2013/14 | 99% | 92% | 78% | 51% | 48% | 327 | 493 |

| Nifer y merched 15 oed a oedd ar y gofrestr yn Ionawr 2013: 78 | | | | | | | |
|--|------|------|-----|-----|-----|-----|-----|
| Ysgol 2013/14 | 100% | 100% | 97% | 83% | 80% | 390 | 696 |
| Ardal ALI 2013/14 | 100% | 97% | 89% | 62% | 58% | 364 | 602 |
| Cymru 2013/14 | 99% | 95% | 86% | 59% | 56% | 354 | 549 |

1. Gallwch gael manylion am gymwysterau cymeradwy, sgôr pwyntiau a chyfraniad at drothwyon, yng Nghronfa Ddata Cymwysterau Cymeradwy Cymru (DAQW) yn <http://www.daqw.org.uk>
2. Gallwch gael gwybodaeth am ba feysydd llafur a gynhwysir ym mhob maes pwnc yn Nodiadau Canllaw.
3. Cyfrifir sgorau pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'u capio drwy ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau.
4. Cymhwyster Lefel Mynediad.54.
5. Ar gyfer SSSP terfynol caiff y diffiniad hwn ei gyfnewid â chanran y disgyblion 15 oed sy'n gadael addysg heb unrhyw gymwysterau fel y dyffinir o dan y Dangosydd Perfformiad Cenedlaethol EDU/002.
6. Defnyddir ar gyfer pob tabl meincondi Prydau Ysgol am Ddim.



Cyrchfannau disgyblion

| Disgyblion | BI 11 | | BI 12 | | BI 13 | |
|--|-------|-------|-------|-------|-------|-------|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| | (129) | | (117) | | (89) | |
| Parhau mewn addysg llawn amser – yn yr ysgol hon | 88 | 68.2% | 105 | 89.7% | | |
| Parhau mewn addysg llawn amser – mewn ysgol arall | 1 | 0.8% | 3 | 2.6% | | |
| Parhau mewn addysg llawn amser – coleg | 36 | 27.9% | 6 | 5.1% | 8 | 9% |
| Parhau mewn addysg llawn amser – cwrs addysg Uwch | | | | | 56 | 62.9% |
| Blwyddyn allan | | | | | 16 | 18% |
| Parhau mewn addysg rhan amser | | | | | | |
| Hyfforddiant ieuentid gan gynnwys prentisiaeth | 1 | 0.8% | 1 | 0.9% | 4 | 4.5% |
| Di-waith ac wedi'i gofrestru â Gyrfa Cymru | | | | | | |
| Di-waith a heb ei gofrestru â Gyrfa Cymru | | | | | | |
| Methu â dechrau Cyflogaeth, Addysg Uwch yn sgîl salwch | | | | | | |
| Wedi gadael yr ardal | 1 | 0.8% | | | | |
| Ddim yn ymateb i gamau dilynol ac felly ddim yn gwybod | | | | | | |
| Swydd | 2 | 16.7% | 2 | 1.7% | 5 | 5.6% |

Presenoldeb

| Presenoldeb disgyblion | 2011/2012 | 2012/2013 | 2013/2014 |
|------------------------------|-----------|-----------|-----------|
| % Absenoldebau a awdurdodwyd | 6.2% | 6.8% | 4.7% |
| % Absenoldebau heb awdurdod | 0.2% | 0.1% | 0.1% |
| % Presenoldeb | 93.6% | 93.0% | 95.3% |

| Targedau'r Corff llywodraethol o ran presenoldeb | 2013/2014 | 2014/2015 | 2015/2016 |
|--|-----------|-----------|-----------|
| % Presenoldeb | 95.5% | 95.7% | 95.9% |



Cyfleusterau Toiled

Archwilir Cyfleusterau Toiled yn rheolaidd ac mae'n rhan o'r contract glanhau gyda'r Awdurdod. Mae'r disgyblion, drwy holiadur a'r Cyngor Ysgol, yn cyfrannu at y gwaith o fonitro ansawdd y cyfleusterau hyn. Bydd gweithredu ar ganlyniadau'r holiadur yn digwydd yn 2014-15.

Nodiadau ar Ysgolion Iach

Rydym wedi ymrwmo i'r Mesur Bwyta'n Iach ac Yfed mewn Ysgolion sy'n ymgorffori'r arweiniad ar gyfer 'Blas am Oes'. Daeth hyn i rym ym mis Medi 2013. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol a'r camau sydd eu hangen i wella safonau maeth bwyd a diod a werthir yn ein hysgol. Rydym wedi gweithredu ar hyn gyda chefnogaeth y gwasanaeth Arlwyio i sicrhau bod yr holl fwyd a diod yn ein hysgol yn cydymffurfio â'r mesur. Mae bwyta'n iach yn cael ei hyrwyddo drwy wersi Technoleg Bwyd, Bioleg ac ABCCh. Mae negeseuon cyson yn cael eu darparu gan staff o ran bwyd a diod yn yr ysgol ac oddi ar y safle. Rydym bellach wedi cyrraedd Cam 4 Ysgolion Iach.

Trefn y dydd ym Mro Myrddin

Trefnir yr amserlen ar batrwm o 5 gwrs y dydd dros gyfnod o ddeg diwrnod yn yr ysgol. Isod gweler amseroedd y sesiynau.

| | | | | | |
|-------------|-----------|-------------|------------|-------------|---------|
| 8.55-9.05 | Cofrestru | 9.05-9.20 | Gwasanaeth | 9.20-10.20 | Gwers 1 |
| 10.20-10.35 | Egwyl | 10.35-11.35 | Gwers 2 | 11.35-12.35 | Gwers 3 |
| 12.35-1.35 | Cinio | 1.35-1.40 | Cofrestru | 1.40-2.40 | Gwers 4 |
| 2.40-3.35 | Gwers 5 | | | | |



Dyddiadau Gwyliau Ysgol 2014-15

| Tymor | Dechrau | Hanner Tymor | | Diwedd | Dyddiau |
|--|--------------------------|--------------------------|----------------------------|----------------------------|------------|
| | | Dechrau | Diwedd | | |
| Hydref 2014 | Dydd Mercher 3 Medi | Dydd Llun 27 Hydref | Dydd Gwener 31 Hydref | Dydd Gwener 19 Rhagfyr | 74 |
| Gwanwyn 2015 | Dydd Mawrth 5 Ionawr | Dydd Llun 16 Chwefror | Dydd Gwener 20 Chwefror | Dydd Gwener 27 Mawrth | 55 |
| Haf 2015 | Dydd Mawrth 14 Ebrill | Dydd Llun 25 Mai | Dydd Gwener 29 Mai | Dydd Llun 20 Gorffennaf | 64 |
| Dyddiau HMS Penodol – Dydd Llun Medi 1, Dydd Llun Ebrill 13 Dyddiau HMS ar ddisgresiwn yr ysgol - Dydd Mawrth, Medi 2il; Dydd Gwener, Chwefror 13eg; Dydd Llun, 21ain Gorffennaf. Er gwybodaeth: Gwener y Groglith - Ebrill 3, Gwyl Fai - Mai 4 | | | | | 2 |
| Cyfanswm | | | | | 195 |





Disgyblaeth

Rhaid wrth reolau ysgol er mwyn diogelu trefn a safonau o fewn yr ysgol. Fe'u seilir ar y syniadau canolog o hunan barch, parch at eraill, a synnwyr cyffredin. Trafodir y rheolau yn y gwersi tiwtorial a disgwylir i bob disgybl gydymffurfio. Cynhelir safonau uchel o ddisgyblaeth trwy weithredu system glir o ddisgyblu disgyblion nad ydym yn cydymffurfio. Yr athro pwnc sydd yn delio â'r disgybl yn gyntaf ac os nad yw hyn yn adfer y sefyllfa mae'r mater yn cael ei drafod o fewn yr Adran. Os oes angen delio ymhellach gyda'r disgybl fe'i cyfeirir at y Pennaeth Blwyddyn i gynnal trafodaethau pellach cyn trafod ataliad awr ginio. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ac yn cael ei osod mewn ataliad awr ginio mwy na thair gwaith yna hysbysir y rhieni y cedwir disgybl mewn ataliad ar ôl ysgol. Gellir atal disgybl rhag dod i'r ysgol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gweithredir polisi hybu ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol ac oherwydd hynny, prin iawn yw'r camymddwyn o fewn a thu allan i furiau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gweithredu polisi clir wrth ddelio â materion yn ymwneud â bwllian, ac yn ymateb yn syth os bydd problem o'r fath yn codi.

Iechyd a diogelwch

Mae polisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol yn adlewyrchu dyhead y Corff Llywodraethol i sicrhau safle diogel i'r disgyblion a'r staff fel ei gilydd. Cynrychiolir pob categori cyflogaeth o blith y staff ar Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y staff. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn ôl i Bwyllgor Iechyd a Diogelwch y Llywodraethwyr. Pwysleisir i'r staff y dylid rhoi gwbod i'r Swyddog Iechyd a Diogelwch am unrhyw ddiffygion / peryglon yn syth.

Prospectws yr ysgol

Caiff Prospectws yr Ysgol ei addasu yn flynyddol er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill. Rhoddir copi i rieni'r plant sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf neu sy'n trosglwyddo o ysgol arall. Mae copiau ar gael ar wefan yr ysgol neu dros yr e-bost neu os oes problemau gyda hynny, darperir copi caled drwy gais i swyddfa'r ysgol.

Trefniadau arbennig o safbwynt hygyrchedd i ddisgyblion, staff a rhieni gydag anableddau

Mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod trefniadau ar droed gan yr ysgol i sicrhau nad yw disgyblion (neu rywun arall sy'n rhanddeiliad yr ysgol) ag anableddau yn cael eu trafod yn llai ffafriol nag eraill.



Cyfrwng Addysgu a Pholisi Iaith

Addysgir ac asesir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Myrddin a'r cyfrwng addysgu yma, sef y Gymraeg, yw'r norm, wrth reswm, i fwyafrif llethol y disgyblion sy'n dewis Bro Myrddin fel ysgol uwchradd. O ran Gwyddoniaeth mae dewis iaith yn bodoli ers sefydlu'r Polisi iaith presennol. Bydd disgyblion sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7 yn dilyn Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg os bu iddynt ddilyn y pwnc trwy'r Gymraeg yn yr ysgol gynradd. Lleiafrif o ddisgyblion bellach sy'n dewis astudio Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Saesneg, a hynny ers sawl blwyddyn. O ran Mathemateg eto mae dewis iaith yn bodoli. Ymhob un o'r dosbarthiadau yma, pwysleisir taw'r ddealltwriaeth o Fathemateg sydd bwysicaf i sicrhau safonau uchel yn y pwnc nid y sylw i gyfrwng yr addysgu a'r dysgu. Mae pob disgybl yn CA3 yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny ers sawl blwyddyn. Mewn Gwyddoniaeth a Mathemateg cyfrwng Cymraeg yn CA3 darperir rhestrau termau a geirfa pwnc yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ychwanegol fe ddefnyddir adnoddau, llyfrau a TGCh cyfrwng Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg yn rheolaidd i gyfoethogi datblygiad ieithyddol, gwyddonol a mathemategol y disgyblion. Bydd hyn yn sicrhau y bydd pob disgybl yn medru trafod y pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn dileu unrhyw ofid a all fodoli ymhlith y rhai sy'n credu y gall addysg wyddonol a mathemategol trwy'r Gymraeg yn unig ei gwneud yn anodd i ddisgyblion addasu i gyd-destun gwyddoniaeth a mathemateg cyfrwng Saesneg wedi gadael ysgol.

Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academiaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Mae yn orfodol i ddisgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur. Categori iaith yr ysgol yw 2A. Mae'r ysgol yn gweithredu ar dargedau Cynllun Strategol Iaith Sir Gâr i symud yr ysgol ar hyd y continiwm ieithyddol.

Polisiau

Addaswyd ac adolygwyd 60 o bolisiau gan y Corff Llywodraethol yn eu cyfarfod blynyddol diweddaraf a mabwysiadwyd tri polisi newydd sef y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, polisi defnydd Cymraeg anffurfiol a'r Polisi Tâl Athrawon.



Adroddiad Anghenion Addysgol Arbennig 2013-14

Ein nod yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yw i addysgu disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig ochr yn ochr a'u cyfoedion yn y brif ffrwd cyn belled ag y bydd hynny'n ymarferol. Er i blant dderbyn cwrwicwlwm gwahaniaethol, fe fydd na adegau pan fydd disgyblion yn cael eu tynnu allan o ddsbarthiadau dros dro, er mwyn canolbwyntio ar rai agweddau allweddol o'r gwaith megis sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Gwneir hyn ar sail profion safonol ac adroddiadau a dderbynir oddi wrth swyddogion yr awdurdod addysg a phenaethiaid yr ysgolion cynradd ac ar ôl trafod gyda rhieni unigol.

Mrs Caroline Walton, Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol sydd yn gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth i'r disgyblion ac anghenion addysgol arbennig a threfnu gwaith y staff cynorthwyol. Adolygir y datganiadau yn flynyddol, mewn cyfarfod a drefnir gyda'r rhieni unigol a'r gwasanaethau cynnal sirol. Mrs Lynwen Roberts sydd wedi ei henwi fel llywodraethwr cyswllt i'r adran. Ceir 147 o ddisgyblion ar y cofrestr AAA wedi eu dosbarthu fel a ganlyn. Gwelwyd tipyn o newidiadau yng ngwaith yr Adran dros y flwyddyn 2012-13. Cyflwynwyd system newydd o ddefnyddio Cynorthwywyr Addysgu i gynnal disgyblion. Yn hytrach na chlymu CA gyda disgyblion penodol sydd â Datganiad AAA, bu'r tîm o GA yn gweithio o fewn meysydd arbenigedd yn gysylltiedig gyda laith, Rhifedd/Gwyddoniaeth a phynciau ymarferol. Manteision y newidiadau oedd ein bod yn defnyddio cryfderau pob un o'r CA ac yn osgoi gorddibyniaeth gan rai o'r disgyblion ar unigolyn. Roedd yn ffordd hefyd i hybu sgiliau cymdeithasol ac annibyniaeth y disgyblion.

Derbyniodd y CADY ac un o'r CA hyfforddiant ar Gymorth Cadarnhaol. Bellach mae'r CA yn gweithio gydag unigolion sydd angen mwy o gefnogaeth na'r grŵp hybu sgiliau cymdeithasol a ddarperir gan yr ysgol. Cydweithiodd yr ysgol hefyd gydag Afasic Cymru a phedair ysgol arall yn Sir Gâr a'r AALI i gynnal awdit o anghenion laith a Lleferydd y disgyblion. Mae'r gwaith yn y maes yn parhau. Crewyd proffil ar bob disgybl ar y gofrestr AAA sef y CCU (Cynllun sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn). Dengys y CCU farn y disgybl unigol, y ffactorau sy'n effeithio ar eu dysgu mewn gwersi, canlyniadau unrhyw broffion safonedig a thargedau athrawon.

Bellach derbynia nifer fawr o ddisgyblion sydd ar y Gofrestr AAA drefniadau mynediad yn eu harholiadau allanol a mewnol. Cyflwynwyd darllynydd cyfrifiadur i ddisgyblion sydd ar hawl i gael darllynydd. Galluoga hyn y disgyblion sy'n sefyll Cymraeg neu Saesneg laith i glywed y testun yn cael ei ddarllen yn uchel. Felly, mae'r disgyblion sydd â sgiliau darllen gwan ond sgiliau darllen a deall da yn gallu cael mynediad i bapurau iaith Cymraeg a Saesneg am y tro cyntaf.

| Blwyddyn | Datganiadau (PYD) | Gweithredu yn yr ysgol a mwy (PYD) | Gweithredu yn yr ysgol (PYD) |
|-----------------|-------------------|------------------------------------|------------------------------|
| 7 | 2 | 8 | 20 (1) |
| 8 | 0 | 1 | 26 (1) |
| 9 | 5 | 0 | 12 |
| 10 | 3 | 2 | 19 (2) |
| 11 | 4 | 4 (2) | 23 (1) |
| 12 | 2 (1) | 1 | 8 |
| 13 | 0 | 2 | 5 |
| Cyfanswm | 16 | 18 | 113 |

Datblygwyd gweithdy darllen ar gyfer darllenwyr llai hyderus yn ystod y flwyddyn sef y 'Literacy Toolbox.' Defnyddia'r cynllun gyfrifiaduron a dulliau dysgu arbennig i hybu sgiliau darllen a sillafu. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn oedran darllen y disgyblion a fu'n rhan o'r cynllun.



Lles disgyblion

Mae gennym dîm o bobl yn gweithio er mwyn lles y disgyblion. Bellach mae pedwar aelod wedi eu hyfforddi fel swyddogion amddiffyn plant – Dr Llinos Jones, y pennaeth; Mr Euryn Madoc Jones, dirprwy bennaeth; Miss Zelda Williams a Mr Jonathan Thomas, penaethiaid cynorthwyol. Mae'r penaethiaid blwyddyn yn chwarae rôl holl bwysig, felly hefyd y swyddog ieuencid, Cynorthwydd cymorth cyntaf yr ysgol, nyrs iechyd yr ysgol, anogwyr dysgu a chwmselyddion. Gwelwyd 26 o ddisgyblion gan gwnselyddion yr ysgol Mrs Netta Thomas a Mrs Zena Cooper eleni. Mae'r cynllun Mentora Cyfoedion, sef cynllun i hyfforddi disgyblion y chweched dosbarth i weithio gyda phlant bregus yn mynd o nerth i nerth.

Chwaraeon

Mae'r Llywodraethwyr o'r farn y gwiredwyd prif nodau chwaraeon yr ysgol sef:

- Darparu amgylchedd ddiogel sy'n symbyliad i ddisgyblion lle gallant weithio tuag at aeddfedrwydd cyffredinol
- Datblygu sgiliau corfforol
- Hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd wrth ymarfer.

Cynigir llu o weithgareddau gan yr adran a'r swyddog 5x60 gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, criced, tenis, gymnasteg, cyfeiriannu, badminton, aerobeg, trawsgwlad, pêl-rwyd, dawnsgreadigol, canŵio, rafftio, rownderi, sgio, gweithgareddau awyr agored, hoci, pêl-fasged, rygbi cyffwrdd, pêl-foeli, ymarfer cylched, ymarfer pwysau, dringo, beicio mynydd a mynydda. Yn ychwanegol mae llawer o'r disgyblion yn cwblhau Gwobr Efydd, Arian ac Aur Dug Caeredin yn flynyddol. Mae llwyddiant ein disgyblion ar y caeau chwarae yn yr ysgol ac yn allgyrsiol yn arbennig gyda sawl unigolion yn cyrraedd safon cenedlaethol.

Llwyddiannau

Ymhyfryda'r ysgol hefyd yn llwyddiannau academaidd ac allgyrsiol ein disgyblion, nid yn unig ar y caeau chwarae ond ar lwyfannau cenedlaethol ac ym myd actio a'r cyfryngau.

Gweithgareddau allgyrsiol

Yn flynyddol cynigir llu o brofiadau allgyrsiol i'n disgyblion i gyd-fynd gyda'u hastudiaethau academaidd. Cynhelir teithiau niferus, gweithdai amrywiol, cystadlaethau diddorol, siaradwyr gwadd, cynadleddau blynyddol a chyfleoedd o bob math.

Pwyllgor dyngarol

Mae gennym bwyllgor dyngarol gweithgar o 70 o ddisgyblion y chweched dosbarth. Eleni casglwyd dros £4,000 ar gyfer achosion da amrywiol.

